Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adfer safleoedd glo brig

Awst 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddHinsawdd**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Delwedd clawr oddi wrth y Rhwydwaith Gweithredu Glo (www.coalaction.org.uk)

Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adfer safleoedd glo brig

Awst 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** .................................................. 5

**1. Cyflwyniad** .................................................. 9

Cylch gorchwyl .................................................. 9

Ein dull ni .................................................. 9

**2. Cloddio glo brig yng Nghymru** .................................................. 11

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gloddio glo brig .................................................. 11

Adroddiad Llywodraeth Cymru 2014 .................................................. 12

Argymhellion o adroddiad 2014 .................................................. 12

Canllawiau arfer gorau'r Awdurdod Glo .................................................. 13

Adroddiad y Rhwydwaith Gweithredu Glo - 2022 .................................................. 14

Ein barn ni .................................................. 14

**Safleoedd glo brig Nant Helen a Margam** .................................................. 16

**3. Y methiant hanesyddol i adfer safleoedd glo brig** .................................................. 18

Cynnydd o ran adfer safleoedd .................................................. 19

Gweithredu argymhellion yn adroddiad 2014 a chanllawiau 2016 .................................................. 20

Ariannu gwaith adfer .................................................. 21

Ein barn ni .................................................. 22

**Safleoedd glo brig Pwll y Dwyrain a Glan Lash** .................................................. 25

**4. Diffyg atebolrwydd** .................................................. 27

Rôl yr Awdurdod Glo .................................................. 28

Adnoddau awdurdodau lleol .................................................. 28

Ein barn ni ... 29

**Safleoedd glo brig Selar a Glofa'r Tŵr** ... 32

**5. Methiant polisi a deddfwriaeth?** ... 34

Pryderon am adfer tomenni glo yn y dyfodol ... 35

Bil Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli) ... 35

Ein barn ni ... 35

**6. Cynnwys y gymuned ac ymgynghori** ... 38

Ein barn ni ... 39

**7. Ffos-y-frân – pwll glo brig olaf Cymru** ... 41

Ymateb i ddigwyddiadau a pharodrwydd ... 42

Merthyr (De Cymru) Cyf – Datganiad – 9 Mai 2024 ... 42

Adfer ... 44

Asesu'r arian sydd ei angen ar gyfer adfer ... 44

Statws ariannol gweithredwr y safle ... 45

Cymhwyso argymhellion adroddiad 2014 ... 46

Gwaith adfer interim ... 47

Cynllun adfer diwygiedig ... 48

Materion gyda'r wefan ... 48

Cynnwys y gymuned ... 49

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ... 49

Ein barn ni ... 49

**Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.** ... 53

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ... 55

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod polisïau sy'n ymwneud â chloddio glo brig a gweithgareddau cloddio eraill yn rhai cadarn a chyfredol, a'u bod yn darparu amddiffyniadau priodol i awdurdodau lleol a chymunedau. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei pholisïau sy'n ymwneud ag adfer tomenni glo, gyda'r nod o sicrhau na chaiff effeithiau negyddol cloddio glo brig eu hailadrodd........ Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Dywed Polisi Cynllunio Cymru y gellir caniatáu codi glo o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, lle mae'r cynigion yn dangos pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid hinsawdd ac am resymau diogelwch ynni cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r meini prawf y mae'n rhaid eu defnyddio wrth asesu cynigion yn hyn o beth. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud argymhellion canllawiau arfer gorau'r Awdurdod Glo yn ofynion statudol. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cymhwyso'r canllawiau arfer gorau yn fwy cyffredinol, yn enwedig ar gyfer adennill tomenni glo........ Tudalen 23

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU a llywodraeth leol i benderfynu sut i fynd i'r afael â'r diffyg cyllid ar gyfer adfer safleoedd. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol i asesu faint o gyllid sydd ei angen i adfer safleoedd glo brig i lefel dderbyniol. Dylai'r adolygiad annibynnol ystyried beth yw "lefel dderbyniol" mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a chymunedau. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro rolau awdurdodau lleol, yr Awdurdod Glo, a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran adfer safleoedd glo brig, gyda phwyslais arbennig ar eu cyfrifoldebau yn y broses o wneud penderfyniadau, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyoedd........ Tudalen 31

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod holl adroddiadau'r Swyddogion Cynllunio ar gael ar-lein, ochr yn ochr â dogfennau cynllunio cysylltiedig, gan gynnwys cynlluniau adfer diwygiedig, lle bo'n berthnasol. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ag awdurdodau lleol i asesu a diwallu anghenion staffio awdurdodau lleol yn y dyfodol ar gyfer rolau arbenigol fel cynllunwyr mwynau. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y cynnig o adroddiad 2014 i sefydlu 'Canolfan Ragoriaeth' rithwir ar gyfer gwaith cynllunio ar gyfer adfer, yn enwedig yng ngoleuni cynigion posibl i adennill tomenni glo, ac arwain trafodaethau gyda llywodraeth leol ar sut i weithredu hyn. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU gyda'r nod o ddileu dyletswydd statudol yr Awdurdod Glo i gynnal a datblygu diwydiant cloddio glo sy'n economaidd hyfyw. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 13.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried gwneud rhywfaint o berchnogaeth gymunedol yn ofyniad ar gyfer safleoedd glo brig a datblygiadau tebyg, gan gynnwys safleoedd adennill tomenni glo. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2 (MTAN2) i sicrhau ei fod yn ateb y gofyn, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau newydd ac adfer tomenni glo. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori darpariaethau ar gyfer adfer cyn-safleoedd glo brig o fewn y Bil Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli) sydd ar ddod. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 16.** Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU i geisio cyllid ar gyfer adfer tomenni glo. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 17.** Mae rhaid i Lywodraeth Cymru orfodi ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer pob cam o'r broses adfer, gan gynnwys pan gyflwynir cynlluniau adfer diwygiedig. ........ Tudalen 40

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru gynghori awdurdodau lleol i ddynodi swyddog penodol fel cyswllt i'r gymuned leol, gan ddarparu sianel gyfathrebu uniongyrchol rhwng preswylwyr ac awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â safleoedd neu ddatblygiadau tebyg. .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gynghori awdurdodau lleol i greu pyrth ar-lein lle y gall preswylwyr gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am bob cam o'r broses adfer. .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru annog y defnydd o gynulliadau dinasyddion fel fforymau ar gyfer trafod dyfodol safleoedd adfer, yn enwedig pan fethodd adferiad fodloni'r caniatâd cynllunio gwreiddiol ac mae angen cyfaddawdu. .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio mecanweithiau gorfodi cryfach yn ddi-oed i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolaethau cynllunio, megis y gweithgareddau mwyngloddio a barhaodd yn Ffos-y-frân ar ôl i'r drwydded ddod i ben. .......... Tudalen 52

**Argymhelliad 22.** Os na ellir draenio'r dŵr o'r gwagleoedd ar y safle, mae rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sicrhau bod unrhyw gorff dŵr sy'n deillio o'r gwaith adfer yn Ffos-y-frân yn ddiogel ac yn darparu budd i'r gymuned leol. .......... Tudalen 52

**Argymhelliad 23.** Mae rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sicrhau bod y cynllun adfer diwygiedig yn adlewyrchu, o leiaf, amcanion y cynllun adfer gwreiddiol, gan gynnwys: mynediad diogel i'r cyhoedd ar draws tirwedd hanesyddol Dwyrain Merthyr gyda rhwydwaith nwydd o lwybrau troed; cynefinoedd bywyd gwyllt cynaliadwy a safleoedd amgylcheddol bioamrywiol; diogelu ac adfer nodweddion treftadaeth sydd wedi goroesi; a dychwelyd y rhan fwyaf o'r safle at ddefnydd traddodiadol cominwyr. .......... Tudalen 52

**Argymhelliad 24.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gynnwys preswylwyr lleol yn llawn wrth ystyried cynlluniau adfer diwygiedig ar gyfer safle Ffos-y-frân. .......... Tudalen 52

**Argymhelliad 25.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyhoeddi'r cais ar gyfer y cynllun adfer diwygiedig yn Ffos-y-frân ac adroddiadau cysylltiedig y swyddog cynllunio. .......... Tudalen 52

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried goblygiadau ehangach y methiannau yn Ffos-y-frân a gweithredu newidiadau systemig i atal materion tebyg yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â safleoedd adfer tomenni glo .......... Tudalen 52

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cytunodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') i gynnal ymchwiliad penodol ynghylch adfer hen safleoedd glo brig yn ne Cymru.

**2.** Sbardunwyd yr ymchwiliad gan faterion yn deillio o gau safle glo brig olaf Cymru, sef Ffos-y-frân ym Merthyr Tudful, yn 2023.

**3.** Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu'r Pwyllgor yn cyfnewid gohebiaeth â'r Ysgrifennydd Cabinet cyfrifol mewn perthynas â pharhau i godi glo ar safle Ffos-y-frân, er bod trwydded y gweithredwr wedi dod i ben. Mae'r ohebiaeth i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

## Cylch gorchwyl

**4.** Cylch gorchwyl ein gwaith oedd ystyried:

- y trefniadau ariannol ac ymarferol ar gyfer adfer safle glo brig Ffos-y-frân;
- sut mae modd adfer safleoedd glo brig, a'r cynlluniau wrth gefn os na fydd digon o arian ar gael; a'r
- canfyddiadau a'r argymhellion o adroddiad Llywodraeth Cymru ynghylch Ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru (Ebrill 2014) ac a yw'r rhain yn berthnasol o hyd.

## Ein dull ni

**5.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gydag amrywiaeth o randdeiliaid ar 24 Ebrill, 9 Mai, a 22 Mai 2024. Hefyd, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig, sydd ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**6.** Gwahoddodd y Pwyllgor Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gyfarfod i drafod materion yn ymwneud â safle Ffos-y-frân. Gwrthododd y Cyngor y gwahoddiad i ddechrau. Roeddem yn falch i'r Cyngor a dod i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai. Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad hefyd i weithredwr y safle, sef Merthyr (South Wales) Ltd, a wrthodwyd. Yn lle hynny, gwnaeth gweithredwr y

safle ddatganiad ysgrifenedig, sydd i'w weld yn llawn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

**7.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at ei waith.

# 2. Cloddio glo brig yng Nghymru

**8.** Mae cloddio glo brig (neu ar yr wyneb) yn dechneg chwarela lle mae gwythiennau glo sy'n weddol agos at wyneb y tir yn cael eu datguddio gan waith cloddio ar y creigiau uwchben. Mae'r graig sy'n gorwedd uwchben ac o dan bob wythïen (y 'gorlwyth' a'r 'rhynglwyth') yn cael ei chloddio a'i storio gerllaw, gan amlygu gwythiennau glo (gan gynnwys y rhai a fyddai'n rhy denau i'w tynnu trwy gloddio'n ddwfn) i'w cloddio. Mae costau cyfalaf a gweithio yn is ar gyfer cloddio glo brig na chloddio tanddaearol. Ar ddiwedd oes waith y safle, caiff ei adfer drwy ei lenwi â'r gorlwyth.

**9.** Yn yr un modd â phyllau glo dwfn, mae nifer y safleoedd glo brig wedi gostwng yn raddol ers y 1960au. Er gwaethaf hyn, mae sawl miliwn tunnell o lo wedi parhau i gael ei godi bob blwyddyn yn y DU drwy gloddio glo brig dros y degawd diwethaf.

**10.** Oherwydd ei gwythiennau sy'n gyfoethog o ran glo, mae Cymru wedi gweld nifer o safleoedd glo brig dros y blynyddoedd, o feintiau amrywiol. Fodd bynnag, yn dilyn cau safle glo brig Ffos-y-frân ddiwedd 2023, nid oes unrhyw safleoedd glo brig gweithredol yng Nghymru.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gloddio glo brig

**11.** Mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar gloddio glo brig, sef:

> *"Ni ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau glo brig, pyllau glo dwfn na gwaredu gwastraff pyllau glo.* Pe bai cynigion yn cael eu cyflwyno o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, byddai'n rhaid iddynt ddangos yn glir pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni."

**12.** Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch trefniadau preifateiddio Llywodraeth y DU yn y gorffennol, gan fynegi siom am yr imiwnedd deng mlynedd rhag gofynion bond a bennwyd. Dywedodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, fod y:

> *"... diwylliant sydd ynghlwm wrth hyn wedi cael effaith ddybryd ar allu cyrff cyhoeddus i sicrhau cronfeydd a mesurau diogelu i sicrhau adfer llawn"*

a

> *"mae diffyg cyllid yn effeithio ar safleoedd sy'n golygu bod angen gwneud penderfyniadau anodd ac anfoddhaol ynghylch cynlluniau adfer diwygiedig."*

## Adroddiad Llywodraeth Cymru 2014

**13.** Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru** ("adroddiad 2014"). **Comisiynwyd ERM** i archwilio risgiau yn ymwneud ag adfer annigonol, a'r rhesymau dros fethiannau o'r fath. Ceisiodd y gwaith ymchwil nodi lle'r oedd y bond neu'r mechnïwr a oedd gan yr awdurdod cynllunio lleol yn brin o'r lefel sydd ei hangen i adfer safle yn unol â'r caniatâd cynllunio, pe bai'r safle'n cael ei adael neu na fyddai'n cael ei adfer.

**14.** Cafodd deg safle gweithredol eu nodi. Yn ogystal, cafodd pedwar safle wedi'u hadfer (ond mewn ôl-ofal) a thri safle gyda cheisiadau cynllunio yn yr arfaeth eu hystyried. Ni ystyriwyd bod pedwar safle (Glan Lash, Nant-y-Mynydd, Bwlch Ffos a Selar) yn peri risg sylweddol. Fodd bynnag, roedd pum safle mwy o faint (Ffos-y-frân, Glofa'r Tŵr, Nant Helen, Pwll y Dwyrain a Margam) mewn perygl o beidio â chael sicrwydd bond digonol ar ryw adeg o'u hoes gweithredu. Cafodd y safle llai ond arwyddocaol yn Nynant Fawr ei adael i bob pwrpas mewn cyflwr heb ei adfer.

**15.** Canfu'r astudiaeth fod bondio a mecanweithiau eraill i sicrhau adferiad wedi'u cymhwyso mewn ffordd anghyson. Mae'r arian a gronnwyd ar gyfer rhai safleoedd yn llai na'r rhwymedigaethau ariannol sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer ac ôl-ofal yn unol â'r amodau cynllunio y cytunwyd arnynt.

### Argymhellion o adroddiad 2014

**16.** Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod dylunio, cronni, dal, a rhyddhau bond yn weithgaredd arbenigol sy'n defnyddio llawer o adnoddau. Galwodd am sefydlu 'Canolfan Ragoriaeth' rithwir i ddarparu cronfa o wasanaethau arbenigol

ar gyfer cynllunio a bondio gwaith adfer yng Nghymru, yn seiliedig ar arfer gorau rhyngwladol.

**17.** Ar gyfer safleoedd sydd mewn perygl o beidio â chael eu hadfer yn unol ag amodau cynllunio, awgrymodd yr adroddiad y gallai fod angen mesurau eraill. Gallai'r rhain gynnwys ailgynllunio cynlluniau adfer safleoedd neu newid ôl-ddefnydd i gynhyrchu mwy o werth safle gweddilliol. Ar gyfer safleoedd o'r fath, argymhellodd y dylid adolygu cynigion adfer ac ôl-ofal i brofi a ellid gweithredu atebion amgen am gost is.

**18.** Roedd yr adroddiad yn argymell adolygu Nodyn Cyngor Technegol Mwynau: Glo (MTAN2) i nodi lle y gellid addasu canllawiau polisi i sicrhau bod bondiau adfer yn y dyfodol yn gadarn, yn gyson ac yn briodol.

## Canllawiau arfer gorau'r Awdurdod Glo

**19.** Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd yr Awdurdod Glo, ar ran Llywodraeth Cymru, **ganllawiau arfer gorau ar asesiadau atebolrwydd adfer ar gyfer pyllau glo ar yr wyneb**. Y diben oedd llywio'r dehongliad o Bolisi Cynllunio Cymru a MTAN2, gyda'r nod a ganlyn:

> *"highlight, address and prevent the potential risks that could lead to the abandonment of surface mines prior to completion. It aims to ensure that sufficient security arrangements are in place so that the public purse and impacted communities are protected against a situation whereby the Operator is unable to complete restoration."*

**20.** Y tri argymhelliad allweddol yn y canllawiau oedd:

- Dylid cynnal asesiad atebolrwydd adfer blynyddol ar byllau glo ar yr wyneb i sicrhau bod yr atebolrwydd yn gwbl sicr.
- Dylai'r asesiad gael ei arwain gan asesydd arbenigol annibynnol a benodir gan yr awdurdod lleol ac a ariennir gan y Gweithredwr. Dylent gyfrifo'r gost o adfer y safle yn unol â'r caniatâd cynllunio ac amodau Adran 106.
- Bydd yr awdurdod lleol yn pennu lefel y risg y mae'n fodlon ei derbyn.

## Adroddiad y Rhwydwaith Gweithredu Glo - 2022

**21.** Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo adroddiad ar adfer pyllau glo yn Ne Cymru. Roedd yn cynnwys saith o'r safleoedd glo brig a archwiliwyd yn astudiaeth Llywodraeth Cymru yn 2014 (Pwll y Dwyrain, Ffos-y-frân, Glan Lash, Margam, Nant Helen, Selar a Glofa'r Tŵr). Roedd y gwaith ymchwil yn ymchwil ddesg yn bennaf, ond roedd hefyd yn cynnwys ymweliadau personol â safleoedd ym mis Medi 2022. Gwnaeth nifer o argymhellion:

- Mae angen cynnal asesiad annibynnol a newydd i bennu'r gost o adfer pyllau glo brig sydd wedi'u hadfer yn wael a heb eu hadfer yn ne Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddarparu'r arian hwnnw i sicrhau'r gwaith adfer a addawyd i gymunedau lleol. Mae angen sefydlu tasglu â digon o adnoddau a chefnogaeth i hwyluso hyn a chwblhau'r gwaith adfer.

- Rhaid i benderfyniadau adfer allweddol gael eu harwain gan gymunedau lleol a chyngor annibynnol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

- Dylid mynd i'r afael â thomenni glo ynghyd â gwagleoedd sy'n parhau i fodoli yn sgil cloddio glo brig, yn hytrach na mynd atynt ar wahân.

- Er mwyn sicrhau tryloywder a hygyrchedd, dylai pob awdurdod cynllunio sicrhau bod holl adroddiadau Swyddogion Cynllunio ar gael ar-lein ac yn hawdd eu hadnabod ochr yn ochr â dogfennau cynllunio cysylltiedig.

## Ein barn ni

Cau Ffos-y-frân ddiwedd 2023 oedd diwedd y bennod ddiweddaraf ym mherthynas gymhleth de Cymru â glo. Er bod y diwydiant glo yn hanesyddol wedi dod â manteision economaidd i gymoedd de Cymru drwy greu swyddi, mae'n ddiamau wedi gadael creithiau dwfn ar dirwedd a chymunedau'r ardal.

Er mai dyma ddiwedd y bennod ddiweddaraf, efallai nad dyma'r bennod olaf. Mae sabwynt presennol Llywodraeth Cymru yn gadael y drws ar agor ar gyfer codi glo mewn amgylchiadau eithriadol. At hynny, gallai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wrthdroi ei safbwynt a chynnig cyfleoedd gloddio o'r newydd yng

nghymoedd de Cymru. Mae’r adroddiad hwn felly’n ceisio cyflawni dau ddiben: edrych ar gamgymeriadau’r gorffennol, ac edrych i’r dyfodol, er mwyn dysgu gwersi i osgoi gwneud yr un camgymeriadau.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod polisïau sy’n ymwneud â chloddio yn rhai cadarn a chyfredol er mwyn darparu amddiffyniadau priodol i awdurdodau lleol a chymunedau. Fel rydym wedi gweld dro ar ôl tro gyda chloddio glo brig, cryfhawyd rhai rheolau yn y pen draw a chymerwyd camau, ond yn rhy aml nid oedd modd eu cymhwyso’n ôl-weithredol ac nid oeddent yn helpu’r cymunedau yr effeithiwyd arnynt.

Rydym yn rhannu pryderon cyfranwyr ynghylch y posibilrwydd y bydd gwaith adfer tomenni glo yn arwain at waith cloddio glo newydd. Er mwyn atal hyn, mae'n rhaid i bolisïau ynghylch adfer tomenni glo fod yn eglur a chael eu gorfodi'n llym. Gallai’r effeithiau negyddol sy’n deillio o’r sector glo brig gael eu hailadrodd yn hawdd mewn diwydiannau eraill, a rhaid inni warchod rhag hyn.

Bydd penodau dilynol o’r adroddiad hwn yn mynd i’r afael â materion yn ymwneud â chloddio glo brig, a bydd y bennod olaf yn trafod achos penodol Ffos-y-frân, y safle glo brig olaf yng Nghymru.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod polisïau sy’n ymwneud â chloddio glo brig a gweithgareddau cloddio eraill yn rhai cadarn a chyfredol, a’u bod yn darparu amddiffyniadau priodol i awdurdodau lleol a chymunedau.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei pholisïau sy’n ymwneud ag adfer tomenni glo, gyda’r nod o sicrhau na chaiff effeithiau negyddol cloddio glo brig eu hailadrodd.

**Argymhelliad 3.** Dywed Polisi Cynllunio Cymru y gellir caniatáu codi glo o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, lle mae’r cynigion yn dangos pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid hinsawdd ac am resymau diogelwch ynni cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru egluro’r meini prawf y mae’n rhaid eu defnyddio wrth asesu cynigion yn hyn o beth.

# Safleoedd glo brig Nant Helen a Margam

**Nant Helen**

Rhoddwyd caniatâd ar gyfer safle Nant Helen yng Nghoelbren, Powys, ym 1998. Roedd disgwyl i'r gwaith cloddio am lo gael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2018, a'r gwaith adfer erbyn diwedd Mehefin 2021. Yn dilyn y gwaith cloddio, yr ôl-ddefnydd arfaethedig ar gyfer y safle oedd ardaloedd glaswelltir a chadwraeth natur.

Roedd y bond ar gyfer y safle yn gynyddrannol, yn sefyll ar £6 miliwn yn 2014, gan godi i £30 miliwn erbyn mis Medi 2017. Yn adroddiad 2014, mynegodd yr awdurdod lleol bryder, pe bai'r cwmni'n rhoi'r gorau i weithredu cyn i'r bond llawn fod ar waith, na fyddai digon o gyllid i dalu am y gwaith adfer – ac efallai na fyddai digon o gyllid beth bynnag.

Roedd perchnogion y safle wedi'u cofrestru yn Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, gan arwain at anawsterau posib wrth gymryd camau gorfodi pe bai angen.

**Margam**

Rhoddwyd caniatâd gwreiddiol ar gyfer safle glo brig Margam (Celtic Energy) ym Mynydd Cynffig, Castell-nedd Port Talbot/Pen-y-bont ar Ogwr ym 1999, a daeth y gwaith cloddio am lo i ben ym mis Hydref 2008. Tynnwyd yr holl lo o'r safle, ac roedd yr ôl-ddefnydd arfaethedig yn cynnwys amaethyddiaeth, cadwraeth natur, gwlyptiroedd a choetiroedd. Mae adroddiad 2014 yn nodi bod apeliadau ac achosion llys wedi'u cynnal tan ddiwedd 2011, a bod y sefyllfa o ran gorfodi a gweithredu yn gymhleth. Roedd gan yr awdurdod lleol fond adfer o £5 miliwn ac, mewn perthynas ag adfer, dywedodd fod problemau posibl er bod trafodaethau'n parhau gyda'r tirfeddiannwr ar gynlluniau eraill – fodd bynnag, yn ôl yr awdurdod, nid oedd cyfeiriad clir ar yr adeg honno.

Nododd adroddiad y Rhwydwaith Gweithredu Glo fod gwaith adfer y safle wedi cael ei gwblhau ym mis Awst 2018, gyda chyfnod ôl-ofal o bum mlynedd. Yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer y gwaith adfer oedd £58 miliwn, ond cafodd hwn ei israddio i brosiect gwerth £5.7 miliwn. Cafodd y gwaith adfer ei ohirio hefyd wrth i Celtic Energy apelio at Ymchwiliad Cyhoeddus, yna'r Uchel Lys a'r

Llys Apêl, a chadarnhaodd pob un ohonynt benderfyniad y Cyngor i wrthod y ceisiadau i ehangu'r safle.

# 3. Y methiant hanesyddol i adfer safleoedd glo brig

> *"We have public bodies, Government bodies, in place to protect us from the excesses of these companies, and I'm afraid they've failed us— totally and utterly."*

Chris Austin, un o drigolion Merthyr

**22.** Dywedodd Hugh Towns (Cyngor Sir Caerfyrddin) mai preifateiddio'r diwydiant glo ym 1994 yw un o'r prif ffactorau y tu ôl i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn briodol. Cyn preifateiddio, byddai llywodraeth y dydd wedi gwarantu costau adfer. Gyda phreifateiddio, trosglwyddwyd yr atebolrwydd hwn i gwmnïau preifat. Esboniodd nad oedd gan y cwmnïau preifat hynny y modd i ddelio ag atebolrwydd adfer mewn gwirionedd.

**23.** Dadleuodd Haf Elgar (Cyfeillion y Ddaear) fod y model busnes ar gyfer cloddio glo brig o fudd i gwmnïau preifat ar draul awdurdodau cyhoeddus a chymunedau. Llwyddodd cwmnïau i wneud elw sylweddol o waith cloddio, ond nid oedd yr arian yr oedd ei angen ar gyfer gwaith adfer byth ar gael. Ategodd Alyson Austin (un o drigolion Merthyr) y teimlad hwn, gan ddweud ei bod yn ymddangos bod y strategaeth hon yn cael ei defnyddio'n aml gan y cwmnïau mwyngloddio, o wneud eu harian, ac yna honni eu bod yn dlawd a cherdded i ffwrdd.

**24.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Climate Cymru y canlynol wrth y Pwyllgor ynghylch hen safleoedd glo brig ar draws de Cymru:

> *"[they] have not been fully restored, leaving residents with dangerous sites on their doorsteps, with pitiful compensation for the damage it has caused to their homes in many instances, and a lack of accountability engrained in the system to hold mining companies to account effectively."*

**25.** Dywedodd Hugh Towns nad oedd gan yr un o'r safleoedd a drosglwyddwyd i Celtic Energy Limited drefniadau bondio i sicrhau gwarantau ariannol ar gyfer gwaith adfer. Roedd adroddiad 2014 wedi cydnabod yr angen am fondiau

perfformiad i gyfrif am atebolrwydd adfer. Heb y gwarantau ariannol hyn, roedd awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd gorfodi gweithredwyr i gyflawni eu hymrwymiadau adfer. Awgrymodd Hugh Towns, os bydd cwmni'n methu, y dylid defnyddio'r arian bond ar gyfer gwaith adfer yn unig, heb y posibilrwydd y gallai'r cwmni ei adennill.

## Cynnydd o ran adfer safleoedd

**26.** Nododd Hugh Towns fod llawer o safleoedd glo brig wedi'u hadfer i raddau, er nad oedd hyn wedi digwydd yn unol â'r cytundebau cynllunio gwreiddiol. Dywedodd:

> *"A lot of those have been completed… not to the profiles that people were anticipating, but they nevertheless have gone back to acceptable profiles."*

**27.** Dywedodd fod adroddiad 2014 yn cydnabod y gallai fod angen cyfaddawdu ar gyfer adfer safleoedd oherwydd cyfyngiadau ariannol ac ymarferol. Er y gallai'r gwaith adfer fod yn wahanol i'r hyn a addawyd yn wreiddiol, mewn rhai achosion gallai arferion adfer mwy modern arwain at fanteision ecolegol gwell.

**28.** Cyfeiriodd Hugh Towns at safle Selar fel enghraifft lle negodwyd pecyn adfer diwygiedig i gynnwys bondio digonol a thirffurf sy'n gweithio yn ei amgylchedd. Cyfeiriodd hefyd at Fargam (Parc Slip) a Phwll y Dwyrain, lle'r oedd cyfaddawdau yn cynnwys gadael gwagleoedd yn llawn dŵr a chadw twmpathau gorlwyth ecolegol arwyddocaol. Fodd bynnag, cyfaddefodd nad oedd y cyfaddawdau hyn yn ddelfrydol, gan ddweud:

> *"The reality of the situation is that you either get a restoration of a type which can be funded by the developer, or you don't get one at all."*

**29.** Fodd bynnag, mynegodd trigolion Margam farn gwbl wahanol am ddigonolrwydd y gwaith adfer ym Mharc Slip:

> *"We now have mountains where there were no mountains, a deep, dangerous water filled void where there was a pretty farmhouse and good farmland, rough tracks where there were two good cross valley roads. We have concrete car parks that*

*should have been removed at the end of opencast activities. We have lost numerous footpaths across the valley, a village that was demolished, lost oak woodlands, species and habitats."*

## Gweithredu argymhellion yn adroddiad 2014 a chanllawiau 2016

**30.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, cyfeiriodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo at adroddiad 2014, gan ddweud:

*"The report warned that Ffos-y-fran was in danger of insufficient funds, yet this wasn't acted upon. This is particularly surprising given that warnings about other sites in the 2014 report have since proved well-founded. Setting Ffos-y-fran in the context of a historical pattern leading up to some 6 years ago is important as it highlights that, in addition to the findings of the 2014 report, this should have been foreseen by Merthyr Tydfil County Borough Council and the Welsh Government."*

**31.** Esboniodd Carl Banton (Yr Awdurdod Glo) nad oedd argymhelliad canllawiau arfer gorau 2016 ar gyfer asesiadau atebolrwydd adfer blynyddol wedi'i weithredu'n gyson. Cyfeiriodd at Lofa'r Tŵr fel enghraifft o safle lle'r oedd asesiadau cyfnodol wedi arwain at gynnydd nodedig o ran adfer y safle.

**32.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT):

*"MTCBC is aware of the best practise guide on 'restoration Liability Assessments' for surface coal mines prepared in 2016. Overall, the principles set out in the document, which seek to reduce the opportunity for the site operator to abandon the site without carrying out the final restoration in accordance with the approved plans is supported. It clearly necessitates the need for appropriate expertise and where appropriate independent expert assessors. It also requires co-operation from the site operator who would bear the costs of any agreement to be secured. Unfortunately, this advice was not available when the planning application for Ffos Y Fran was considered in 2005, Planning permission was granted by the National Assembly for*

*Wales and these principles do not appear to have been secured."*

## Ariannu gwaith adfer

*"At Margam/ Parc Slip Opencast Site, the promised enhanced restoration plans never happened. Instead the local communities were forced to accept an alternative restoration which in fact, was no restoration. The so called alternative restoration of the site used £5.7 million of money - instead of the £40 million needed to restore the site properly as was promised."*

Trigolion Margam

**33.** Cydnabu Carl Banton y diffyg sylweddol yn y cyllid adfer ar gyfer llawer o safleoedd. Eglurodd mai bwriad yr arian sy'n cael ei gadw mewn cyfrifon ysgrow ar gyfer safleoedd glo brig yw talu am gost adfer y safleoedd hyn. Nododd mai'r syniad gwreiddiol ynghylch y canllawiau oedd mai dyma'r swm o arian y dylid ei gadw mewn cyfrif ysgrow pe bai cwmni'n mynd i fethdaliad. Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd Carl Banton y gallai adolygiad annibynnol i ailasesu anghenion adfer safleoedd segur fod yn fuddiol, ond pwysleisiodd y gallai cost adolygiad o'r fath fod yn sylweddol.

**34.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo:

*"What restoration has occurred at East Pit and Margam Parc Slip was largely limited to what the Councils had secured in escrow accounts, intended as a guarantee bond in case the company walks out, not to deliver the agreed restoration scheme. This amounted to £22.4 million (20%of the agreed scheme's cost estimated at £100 million) for East Pit, and £5.7 million (10%of the agreed scheme's cost estimated at £58 million) for Margam Parc Slip."*

**35.** Gwnaeth trigolion Merthyr sawl awgrym ynghylch pwy ddylai dalu costau'r gwaith adfer os yw cwmni'n tynnu'n ôl o'r cytundeb adfer, gan ddweud:

> *"The funding of work prior to 1998, and arguably after this date, should fall to the Coal Authority as it was Westminster that decided on coal mines prior to devolution. Post devolution, and certainly in the case of Ffos-y-fran. A fall back position from this would lead to the Welsh government paying for the works as they were the authority who finally gave permissions for the Ffos-y-fran operation to go ahead after the proposal was called-in with a public inquiry and the minister passing the decision."*

## Ein barn ni

Mae'r model busnes ar gyfer cloddio glo brig, dro ar ôl tro, wedi bod o fudd i gwmnïau preifat ar draul awdurdodau cyhoeddus a chymunedau. Er bod gweithredwyr safleoedd wedi gwneud elw sylweddol, mae'n debyg mai ychydig o arian oedd ar ôl ar gyfer cyflawni eu hatebolrwydd i adfer safleoedd.

Ym mhob achos a nodir yn yr adroddiad hwn, nid yw'r gwaith adfer wedi bod yn agos at yr hyn a addawyd. Rydym wedi gweld cwmnïau, weithiau'r un cwmni, yn diflannu heb gadw at eu hochr o'r fargen. Mae methiannau o ran gwaith adfer wedi golygu colledion o gannoedd o filiynau o bunnoedd i'r pwrs cyhoeddus ac wedi cael effaith sylweddol ar drigolion lleol.

Gwnaeth adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2014 sawl argymhelliad gwerthfawr, gan gynnwys yr angen am fondiau perfformiad cadarn i dalu am atebolrwydd sy'n deillio o ymrwymiadau adfer. Yn 2016, roedd canllawiau arfer gorau'r Awdurdod Glo yn argymell y dylid ailasesu'r atebolrwydd adfer yn flynyddol. Argymhellodd hefyd y dylai cost adfer y safle i amodau'r caniatâd cynllunio ac Adran 106 gael ei hasesu gan arbenigwr annibynnol a benodir gan yr awdurdod lleol ac a ariennir gan y gweithredwr. Rydym yn cytuno â'r argymhellion hyn, a allai fod wedi cyfrannu rhywfaint at fod yn rhwyd ddiogelwch a sicrhau bod arian ar gael i adfer safleoedd.

Yn anffodus, yn achos llawer o'r safleoedd glo brig a nodir yn yr adroddiad hwn, daeth yr argymhellion hyn yn rhy hwyr i wneud gwahaniaeth ymarferol. Roedd y difrod wedi'i wneud, gyda chytundebau a wnaed flynyddoedd ynghynt a oedd yn annhebygol o gael eu hadolygu oni bai bod y ddwy ochr yn cytuno i wneud hynny.

Er gwaethaf hyn, gwnaeth rhai gweithredwyr safleoedd gais yn ddiweddarach am estyniadau i'w trwyddedau. Gallai hyn fod wedi bod yn gyfle i ailosod paramedrau'r cytundebau neu negodi i gynnwys yr argymhellion mewn cytundebau newydd. Fodd bynnag, yn aml roedd gan weithredwyr safleoedd awdurdodau lleol ar gledr eu llaw, gydag awdurdodau yn wynebu baich ariannol sylweddol pe bai gweithredwyr yn cerdded i ffwrdd. Roedd y deinamig hwn yn cynnal y cylch o waith adfer annigonol.

Wrth edrych ymlaen, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud argymhellion y canllawiau arfer gorau yn ofyniad statudol, ac ystyried sut y gellir eu cymhwyso’n ehangach, yn enwedig ar gyfer adennill tomenni glo.

Yn olaf, fe wnaeth y Rhwydwaith Gweithredu Glo, yn ei adroddiad yn 2022 ar adfer pyllau glo yn Ne Cymru, argymell adolygiad annibynnol i asesu’r diffyg cyllid sy’n angenrheidiol i adfer safleoedd. Rydym yn cytuno. Dylai'r adolygiad ystyried y cyllid sy’n anegnrheidiol i adfer safleoedd i lefel dderbyniol, yn hytrach na'i fod yn rhwym o reidrwydd i'r amodau cynllunio gwreiddiol. Dylai'r asesydd annibynnol ddiffinio “derbyniol” mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol a'r gymuned leol.

Ar yr un pryd, dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU i benderfynu sut i fynd i’r afael â’r diffyg cyllid. Credwn y dylai hyn gynnwys trafodaethau a chydweithio rhwng y tair haen o lywodraeth – Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud argymhellion canllawiau arfer gorau'r Awdurdod Glo yn ofynion statudol.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cymhwyso’r canllawiau arfer gorau yn fwy cyffredinol, yn enwedig ar gyfer adennill tomenni glo.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU a llywodraeth leol i benderfynu sut i fynd i’r afael â’r diffyg cyllid ar gyfer adfer safleoedd.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol i asesu faint o gyllid sydd ei angen i adfer safleoedd glo brig i lefel dderbyniol.

Dylai'r adolygiad annibynnol ystyried beth yw "lefel dderbyniol" mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a chymunedau.

# Safleoedd glo brig Pwll y Dwyrain a Glan Lash

**Pwll y Dwyrain**

Cafodd safle diwygiedig Pwll y Dwyrain (Celtic Energy) yng Ngwaun-Cae-Gurwen, Castell-nedd Port Talbot, ganiatâd yn 2004. Roedd disgwyl i'r gwaith o godi glo gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2012, a'r gwaith o ôl-lenwi'r safle erbyn mis Mai 2015. Roedd yr ôl-ddefnydd arfaethedig ar gyfer y safle yn cynnwys mynydd cyffredinol a thir pori, tir amaethyddol gwell a choetir gwasgaredig. Yn ogystal, roedd y cynlluniau tymor hwy yn cynnwys parc gwledig a gwesty/cabanau llyn. Roedd **adroddiad 2014** yn nodi bod y bond ar gyfer y safle (£3 miliwn) yn annigonol, ac y gallai o bosibl arwain at anhawster o ran cyflawni adferiad llawn – er bod hyn yn dibynnu ar weithredoedd y datblygwr a'r tirfeddiannwr. Roedd y safle wedi cael ei gloddio am flynyddoedd lawer cyn cael caniatâd yn 2004 – gyda gwaith cloddio'n digwydd yno ers preifateiddio'r diwydiant glo ym 1994. I ddechrau, roedd y gwaith cloddio i fod i ddod i ben ar y safle ym mis Rhagfyr 2001.

Cynhaliodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo ymweliad â safle Pwll y Dwyrain ym mis Medi 2022. Nododd yr adroddiad o'r ymweliad fod llyn mawr wedi'i amgylchynu â ffensys weiren bigog, ac wyneb glo serth y gellir ei weld uwchben y llinell dŵr mewn rhai mannau. Yno, roedd safle Celtic Energy a oedd wedi cael ei adael, gyda drymiau olew, warws, swyddfeydd, a chynwysyddion llongau wedi rhydu yn cynnwys offer diwydiannol.

**Glan Lash**

Rhoddwyd caniatâd i safle Glan Lash (Bryn Bach Coal) yn Llandybie, Sir Gaerfyrddin, ym mis Ionawr 2021. Ar ôl codi 21,500 tunnell o lo dros gyfnod o bum mlynedd, roedd disgwyl i'r gwaith o adfer y safle gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2017, gyda chyfnod ôl-ofal pum mlynedd hyd at fis Rhagfyr 2022. Yr ôl-ddefnydd arfaethedig ar gyfer y safle oedd amaethyddiaeth, coetir a phyllau dŵr. Nododd adroddiad 2014 nad oedd unrhyw fond adfer na mechnïwr gan yr awdurdod lleol.

Eglurodd adroddiad y Rhwydwaith Gweithredu Glo fod Bryn Bach Coal wedi cyflwyno cais i ehangu'r safle yn 2019. Cafodd y cais i ehangu **ei wrthod** ym mis Medi 2022.

Datgelodd ymweliad y Rhwydwaith Gweithredu Glo â'r safle ym mis Medi 2022 fod yr olchfa lo sy'n eiddo i'r cwmni wedi'i lleoli'n agos i'r safle, ac ers i'r caniatâd cynllunio ddod i ben bod yr olchfa wedi bod yn mewnforio glo o fannau eraill a'i werthu ymlaen. Hefyd, nododd fod gwaith cloddio newydd yn weladwy, bod y ffens o amgylch yr ymyl uchaf wedi cael ei symud a'i osod ymhellach yn ôl, a bod o leiaf un o'r peiriannau cloddio yn y pwll yn gynnes o ganlyniad i weithgarwch y diwrnod hwnnw.

# 4. Diffyg atebolrwydd

> *"In our community, we have lost faith in both councils and the Welsh Government who failed to protect us against abandonment, even though all the warning signs were there, and then claimed impotence at properly providing and enforcing genuine restoration."*

Trigolion Margam

**36.** Mae sawl corff yn chwarae rhan mewn perthynas â safle glo brig. Y tirfeddiannwr a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith adfer a diogelwch y cyhoedd ar ôl i'r safle glo brig gau. Mynegodd cyfranwyr bryderon ynghylch trefniadau atebolrwydd, gyda diffyg eglurder ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am bob agwedd ar y broses.

**37.** Disgrifiodd Sue Jordan (cyn aelod o'r Cross-Valleys Group a phreswylydd yn Abertawe) sut y cafodd ei symud o bared i bost, a chodwyd hyn hefyd gan drigolion Merthyr yn eu tystiolaeth ysgrifenedig. Roeddent yn dweud fel a ganlyn:

> *"We have found this one of the most difficult things to overcome; getting anyone to accept responsibility for anything when the legislation and Acts appear to clearly state that they are responsible has been extremely frustrating and mostly fruitless."*

Roeddent yn awgrymu:

> *"Clarification of the responsibilities of each of the public agencies in these cases needs to be provided so that we will know who does what, who has responsibility for what, who can apply enforcement action, when and how?*
>
> *This would at least include the Coal Authority, National Resources Wales, the Local Planning Authority, the Welsh Government, and the Health and Safety Executive public*

> *bodies. Other agencies with involvement in these cases also need to be identified and have their responsibilities clarified."*

**38.** Roedd Carl Banton yn cydnabod canfyddiad bod y dirwedd reoleiddio yn gymhleth. Roedd yn cefnogi'r syniad o gael corff annibynnol i gydgysylltu camau gorfodi lle bo'n briodol. Roedd yr Awdurdod Glo wedi cynnig ymgymryd â rôl o'r fath i Lywodraeth Cymru yn flaenorol, a hynny ar sail adennill costau.

## Rôl yr Awdurdod Glo

**39.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, awgrymodd Climate Cymru y dylid dileu dyletswydd statudol yr Awdurdod Glo i gynnal a datblygu diwydiant glo sy'n economaidd hyfyw fel ei fod yn cyd-fynd yn well â safbwynt Llywodraeth Cymru ar gloddio glo. Dywedodd y byddai hyn yn caniatáu i'r Awdurdod Glo ganolbwyntio ar feysydd a fydd o fudd i bobl a busnesau, megis adfer safleoedd cloddio glo yn briodol ac echdynnu gwres adnewyddadwy/geothermol o fwyngloddiau presennol/segur.

**40.** Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Carl Banton fod yr Awdurdod Glo yn gorff sydd heb ei ddatganoli, ond sy'n gweithio'n agos gyda llywodraethau datganoledig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Nid oedd yn credu bod gwrthdaro rhwng gwaith yr Awdurdod Glo a safbwynt Llywodraeth Cymru ar gloddio glo.

## Adnoddau awdurdodau lleol

**41.** Yn ôl Hugh Towns, fe wnaeth ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ym 1996 wasgaru timau mwynau arbenigol ar draws 22 awdurdod, gan wanhau'r arbenigedd oedd ar gael i awdurdodau lleol. Tynnodd sylw at y ffaith mai dim ond tri o gynllunwyr mwynau profiadol oedd ar ôl yn ne Cymru, gyda phob un ohonynt wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin.

**42.** Nododd Hugh Towns fod gan Gyngor Sir Caerfyrddin gytundebau lefel gwasanaeth gyda 12 awdurdod lleol arall i ddarparu cyngor ar gynllunio mwynau a gwastraff. Tynnodd sylw at natur hyblyg a chost-effeithiol y cytundebau hyn. Pwysleisiodd y manteision a fyddai'n dod o gael tîm cymorth technegol canolog, gydag adnoddau priodol.

**43.** Tynnodd Haf Elgar sylw at y mater o gapasiti ac arbenigedd mewn awdurdodau lleol, yn enwedig o ran cynllunio a gorfodi ym maes mwynau. Dywedodd, er bod CBSMT wedi defnyddio arbenigedd Sir Gaerfyrddin, fod diffyg arbenigedd technegol cyffredinol mewn awdurdodau lleol. Ychwanegodd Daniel Therkelsen o’r Rhwydwaith Gweithredu Glo fod diffyg gwybodaeth dechnegol cynghorwyr yn broblem sylweddol, gan eu gwneud yn ddibynnol iawn ar adroddiadau swyddogion cynllunio.

**44.** Pwysleisiodd David Kilner o Climate Cymru yr angen i awdurdodau lleol fod ag adnoddau digonol i fynd ar drywydd heriau cyfreithiol yn erbyn gweithredwyr safleoedd. Roedd yn cefnogi awgrymiadau gan y Rhwydwaith Gweithredu Glo a Cyfeillion y Ddaear y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu adnoddau cyfreithiol neu gymorth i awdurdodau lleol lle bo angen. Ategwyd hyn gan Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd i wneud yn siŵr bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael y cymorth a’r cyngor gorau posibl wrth ymdrin â gweithredwr safle Ffos-y-frân ac unrhyw adolygiad posibl o’r cynllun adfer.

## Ein barn ni

Dywedodd grwpiau preswylwyr a rhanddeiliaid mai diffyg atebolrwydd clir yw un o’r prif broblemau a brofwyd ganddynt wrth ymdrin â gweithredwyr safleoedd ac awdurdodau cyhoeddus.

Awdurdodau lleol sy’n bennaf gyfrifol am reoli’r gwaith o adfer safleoedd glo brig, gyda rolau cyfyngedig i’r Awdurdod Glo a Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mae cymhlethdod y system yn aml yn arwain at ddryswch. Amlygodd tystiolaeth Sue Jordan hyn, gan ddatgelu system lle mae trigolion yn cael eu symud o bared i bost.

Mae tryloywder yn hanfodol i wella atebolrwydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau, mae angen canllawiau clir i egluro pwy sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y broses. Rhaid i'r canllawiau hyn fod yn hygyrch i'r cyhoedd.

Rydym yn nodi bod adroddiad 2022 y Rhwydwaith Gweithredu Glo yn argymell y dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod holl adroddiadau’r Swyddogion Cynllunio ar gael ar-lein a bod modd eu hadnabod yn glir ochr yn ochr â

dogfennau cynllunio cysylltiedig. Rydym yn cytuno y byddai hwn yn gam defnyddiol tuag at well tryloywder a hygyrchedd.

Mae awdurdodau lleol wedi bod dan bwysau adnoddau sylweddol, ac yn parhau i fod felly, yn enwedig mewn rolau arbenigol. Er enghraifft, dim ond llond llaw o gynllunwyr mwynau profiadol sydd ar ôl yn ne Cymru, gyda phob un wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin. Er bod darparu a defnyddio cytundebau lefel gwasanaeth wedi bod yn werthfawr i sawl awdurdod lleol, rydym yn pryderu y gallai nifer y staff sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin roi'r gwasanaeth mewn sefyllfa fregus. Mae angen asesiad o'r angen yn y dyfodol i sicrhau bod lefelau staffio yn briodol.

Roedd adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2014 yn cydnabod cymhlethdod gwaith cynllunio ar gyfer adfer, yn enwedig mewn perthynas â bondiau. Roedd yn argymell sefydlu 'Canolfan Ragoriaeth' rithwir i ddarparu cronfa o wasanaethau arbenigol ar gyfer gwaith cynllunio ar gyfer adfer. Gan edrych i'r dyfodol, credwn fod y cynnig hwn yn haeddu cael ei ystyried ymhellach, yn enwedig yng ngoleuni cynigion posibl ynghylch adennill tomenni glo. Dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o archwilio gyda llywodraeth leol sut mae modd bwrw ymlaen â hyn.

Rydym yn cydnabod rôl arwyddocaol yr Awdurdod Glo yng Nghymru, gan gynnwys cynnal arolygiadau o fwyngloddiau. Nodwn sylwadau gan gyfranwyr fod gan yr Awdurdod Glo ddyletswydd statudol i gynnal a datblygu diwydiant cloddio glo sy'n economaidd hyfyw. Dywedodd yr Awdurdod Glo wrthym nad yw hyn yn gwrthdaro â pholisïau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cytunwn â chyfranwyr ei bod yn amserol ac yn angenrheidiol i ailystyried dyletswydd statudol yr Awdurdod Glo.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi trafod ymddygiad anghyfrifol gan amryw weithredwyr safleoedd. Mae'n demtasiwn derbyn mai 'dyma mae cwmnïau preifat yn ei wneud'—safbwynt a fynegwyd gan nifer o drigolion. Fodd bynnag, credwn mai camgymeriad yw derbyn hyn fel *fait accompli*. Dylid ystyried gwahanol fodelau perchnogaeth, gan gynnwys perchnogaeth gymunedol, y gallai fod eu hangen ar gyfer caniatâd cynllunio yn y dyfodol. Gallai'r dull hwn helpu i sicrhau rheolaeth fwy cyfrifol a chymunedol o safleoedd glo brig neu weithrediadau tebyg.

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro rolau awdurdodau lleol, yr Awdurdod Glo, a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran adfer safleoedd glo brig, gyda phwyslais arbennig ar eu cyfrifoldebau yn y broses o wneud penderfyniadau, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod holl adroddiadau'r Swyddogion Cynllunio ar gael ar-lein, ochr yn ochr â dogfennau cynllunio cysylltiedig, gan gynnwys cynlluniau adfer diwygiedig, lle bo'n berthnasol.

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ag awdurdodau lleol i asesu a diwallu anghenion staffio awdurdodau lleol yn y dyfodol ar gyfer rolau arbenigol fel cynllunwyr mwynau.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y cynnig o adroddiad 2014 i sefydlu 'Canolfan Ragoriaeth' rithwir ar gyfer gwaith cynllunio ar gyfer adfer, yn enwedig yng ngoleuni cynigion posibl i adennill tomenni glo, ac arwain trafodaethau gyda llywodraeth leol ar sut i weithredu hyn.

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU gyda'r nod o ddileu dyletswydd statudol yr Awdurdod Glo i gynnal a datblygu diwydiant cloddio glo sy'n economaidd hyfyw.

**Argymhelliad 13.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried gwneud rhywfaint o berchnogaeth gymunedol yn ofyniad ar gyfer safleoedd glo brig a datblygiadau tebyg, gan gynnwys safleoedd adennill tomenni glo.

# Safleoedd glo brig Selar a Glofa'r Tŵr

**Selar**

Cafodd safle Selar North (Celtic Energy), yng Nglyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot, ganiatâd ym mis Gorffennaf 2010. Rhoddwyd y caniatâd am bum mlynedd, gyda'r gwaith codi glo i ddod i ben cyn mis Awst 2015. Ar ôl codi 700,000 tunnell o lo, yr ôl-ddefnydd arfaethedig ar gyfer y safle oedd tir mynnydd ar gyfer pori, glaswelltiroedd gwell, coetir, gwlyptiroedd gydag adferiad o ran rhywogaethau, a rheoli gwarchodfa natur. Amlinellodd adroddiad 2014 fod y bond a ddelir gan yr awdurdod lleol yn £20 miliwn (i godi i £22 miliwn) ac nid oedd yr awdurdod lleol yn rhagweld unrhyw anawsterau o ran cyflawni adferiad terfynol y safle.

Nododd ymweliad y Rhwydwaith Gweithredu Glo â'r safle ym mis Medi 2022 ei bod yn ymddangos bod y gwaith adfer wedi'i gwblhau, a bod y safle bellach yn y cyfnod ôl-ofal. Fodd bynnag, adroddodd hefyd fod drymiau olew yn gollwng gwrthrewydd peryglus, ac nad oedd coed ifanc a oedd wedi hen farw a blannwyd fel rhan o'r cynllun adfer wedi cael eu symud a'u hailblannu, gan awgrymu nad oedd yr ardal yn cael llawer o sylw yn ystod y cyfnod ôl-ofal.

**Glofa'r Tŵr**

Cafodd safle glo brig y Tŵr (Tower Regeneration Ltd) yn Hirwaun, Rhondda Cynon Taf, ganiatâd ym mis Rhagfyr 2011. Un o amodau'r caniatâd cynllunio oedd y byddai'r gwaith o godi glo yn dod i ben saith mlynedd ar ôl iddo ddechrau (Mawrth 2012) ac y dylid cwblhau'r gwaith adfer o fewn wyth mlynedd i ddechrau'r gwaith.

Roedd yr ôl-ddefnydd arfaethedig ar gyfer y safle yn cynnwys amaethyddiaeth, cadwraeth natur a chanolfan adnoddau amgylcheddol. Roedd mechnïwr ar waith ar gyfer y safle - £4 miliwn i ddechrau, gyda'r datblygwr wedyn yn gorfod talu £500,000 ymlaen llaw bob mis, nes bod cyfanswm o £10 miliwn wedi ei dalu. Amlinellodd adroddiad 2014 broblem bosibl o ran adfer, gyda'r awdurdod lleol yn mynegi pryderon efallai y byddai'r datblygwr am leihau costau'r gwaith adfer terfynol, a allai arwain at waith o safon is yn cael ei wneud.

Disgrifiodd adroddiad y Rhwydwaith Gweithredu Glo â'r safle adferiad parhaus: ardal fawr, weddol wastad o bridd agored gyda cherbydau'n gweithio arno, a pheiriant cloddio yn ailffurfio bryn.

# 5. Methiant polisi a deddfwriaeth?

> *"Failure to hold the multiple, publicly funded agencies to account when statutory provision is not followed appears to be more problematic than the statutory provision itself."*

Preswylwyr Abertawe

**45.** Codwyd y cwestiwn a yw'r polisïau a'r ddeddfwriaeth bresennol yn ddigon effeithiol, gyda chyfranwyr yn mynegi safbwyntiau gwrthwynebol.

**46.** Cydnabu Hugh Towns fod rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth bresennol wedi dyddio. Awgrymodd y dylid diweddaru MTAN 2, a gyhoeddwyd yn 2009, i adlewyrchu fframweithiau deddfwriaethol mwy diweddar, megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, cydnabu efallai na fydd hyn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd o ystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ar gloddio glo.

**47.** Esboniodd Owen Jordan (cyn-aelod o'r Cross-Valleys Group a phreswylydd Abertawe) fod y ddeddfwriaeth yn gwbl ddigonol, ond bod angen ei gorfodi a sicrhau bod camau gorfodi gyda'r prosesau. Ymhelaethodd preswylwyr Abertawe ar hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

> *"The risks now posed from unrestored opencast coal sites (East Pit, Margam, Ffos y Fran), are, in the main, attributable to the statutory authorities' failure, either severally or in co-operatively, to use the legislation available to them (The Coal Industry Act 1994, Coal Mining subsidence Act 1991, Mines and Quarries (Tips) Act 1969, Reservoirs Act 1975, Planning Act 1990) to effectively control both the site operations and the restoration. Care must be taken that any new legislation does not eviscerate existing statutory provision."*

**48.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd grŵp preswylwyr Merthyr wrth y Pwyllgor y dylai egluro a gwella atebolrwydd fod yn flaenoriaeth, gan ddweud y canlynol:

> *"The public bodies, or agencies, that have responsibility in these cases are not using the powers that they already hold, so we wonder what would further legislation achieve?…There may be legislation and guidance that needs amending, but having a clear path to challenge a public body and ensure that they exercise their responsibilities."*

## Pryderon am adfer tomenni glo yn y dyfodol

**49.** Tynnodd Chris Austin sylw y byddai adfer tomenni glo glo drwy godi glo deilliadol yn arwain at weithrediadau glo newydd. Byddai hyn yn gwrth-ddweud safbwynt polisi datganedig Llywodraeth Cymru, sef "Dim glo newydd." Cododd bryderon penodol am safle arfaethedig ym Medwas, yng nghwm Rhymni. Esboniodd fel y ganlyn:

> *"They will be remediating the tips by taking the coal out of them and using the coal to fund the operation… but it would turn into an opencast coal mine with an open-ended period of mining."*

**50.** Adleisiwyd y pryderon hyn gan Haf Elgar ac eraill.

### Bil Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli)

**51.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu i gryfhau'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir drwy'r Bil Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli) ('y Bil'). Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno yn hydref 2024.

**52.** Mynegodd Haf Elgar gefnogaeth i gynnwys mwyngloddiau glo brig o fewn cwmpas y Bil. Cytunodd David Kilner.

## Ein barn ni

Clywodd y Pwyllgor gan nifer o gyfranwyr nad oedd methiannau hanesyddol adfer safleoedd yn bennaf oherwydd anallu neu ddiffyg awydd i gymhwyso'r rheolau presennol yn gadarn, yn hytrach na bylchau deddfwriaethol. Roedd grwpiau preswylwyr, yn arbennig, yn teimlo'n rhwystredig bod y methiant hwn wedi arwain at adfer cyn-safleoedd glo brig yn annigonol.

Er bod Llywodraeth bresennol Cymru wedi nodi ei safbwynt – mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid cloddio am lo - nid oes dim i atal Llywodraeth Cymru yn y dyfodol rhag mynegi safbwynt gwahanol. Fel y cyfryw, mae'n hanfodol sicrhau bod yr amddiffyniadau deddfwriaethol priodol ar waith.

Yn y dyfodol, byddai angen i gydsyniad ar gyfer pyllau glo brig newydd fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Seilwaith (Cymru) 2024. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wella ymgynghori ac ymgysylltu â phreswylwyr lleol yn ystod y broses gynllunio. Ond nid yw'n cynnwys darpariaethau a fyddai'n atal ailadrodd y materion a welsom yn Ffos-y-frân a'r safleoedd eraill a gofnodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau *nawr* i sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn ateb y gofyn ac yn cyd-fynd â safonau amgylcheddol a chynaliadwyedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn sgil cynigion ar gyfer adfer tomenni glo.

Nodwn argymhellodd adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2014 adolygu MTAN2. Ddegawd yn ddiweddarach, nid yw MTAN2 wedi'i ddiweddaru o hyd. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod MTAN2 yn ateb y gofyn, eto yng nghyd-destun datblygiadau newydd arfaethedig, gan gynnwys gwaith adfer tomenni glo.

Rydym yn cydnabod barn cyfranwyr bod y Bil Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli) sydd ar ddod yn gyfle i gynnwys darpariaethau ar gyfer adfer cyn-safleoedd glo brig. Er na fyddai darpariaethau deddfwriaethol yn gymwys yn ôl-weithredol ac na fyddai'n effeithio ar y safleoedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn, credwn ei bod yn werth ystyried y mater hwn ymhellach.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ceisio cyllid ar gyfer adfer tomenni glo gan Lywodraeth y DU. Gallai sicrhau'r cyllid hwn olygu llai o ddibyniaeth ar gwmnïau cloddio am lo a'r risgiau a ddaw yn sgil hynny. Mae ethol Llywodraeth newydd yn y DU yn gyfle i ailedrych ar y trafodaethau hyn.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2 (MTAN2) i sicrhau ei fod yn ateb y gofyn, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau newydd ac adfer tomenni glo.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori darpariaethau ar gyfer adfer cyn-safleoedd glo brig o fewn y Bil Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli) sydd ar ddod.

**Argymhelliad 16.** Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU i geisio cyllid ar gyfer adfer tomenni glo.

# 6. Cynnwys y gymuned ac ymgynghori

> *"We have always been treated by them as 'the opposition', or even 'the enemy', and we have been ignored, dismissed, marginalised, lied to, and misdirected…"*

Preswylydd Merthyr

**53.** Roedd grwpiau preswylwyr yn unfrydol yn eu beirniadaeth o ddull cyrff cyhoeddus o ymgysylltu ac ymgynghori. Clywodd y Pwyllgor nifer o awgrymiadau am y rhesymau dros hyn a sut y gellid ei wella.

**54.** Cydnabu Hugh Towns fod preswylwyr lleol yn aml yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r broses o wneud penderfyniadau. Gall cynlluniau adfer a gyflwynir yn ystod y cyfnod ceisiadau cynllunio newid, ac nid oes angen ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion adfer manwl a gyflwynir yn ddiweddarach. Wrth gyfeirio at gynnwys y gymuned yn safle'r Selar, dywedodd y bu pwyllgor cyswllt, gan gynnwys aelodau o'r cyngor sir, cynghorau cymuned, a phreswylwyr, oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd am weithgarwch ar y safle. Dywedodd CBSMT hefyd wrth y Pwyllgor fod pwyllgor cyswllt ar waith ar gyfer Ffos-y-frân.

**55.** Dywedodd Alyson Austin fod mecanweithiau ar gyfer cynnwys y gymuned yn y broses adfer eisoes wedi'u cynnwys yn MTAN 2, ond bod diffyg ewyllys i'w defnyddio. Adleisiodd Chris Austin y teimlad hwn:

> *"I do believe that this is all in place and can be actioned, but there is no will whatsoever, certainly with our LPA."*

**56.** Soniodd Owen Jordan am ei anawsterau wrth gyfathrebu â'r Awdurdod Glo. Dywedodd mai diogelu buddiannau mwyngloddio'r cwmni mwyngloddio a dim byd arall oedd cylch gwaith yr Awdurdod Glo.

**57.** Yn ei ymateb ysgrifenedig, awgrymodd Gwrthryfel Difodiant y dylai Llywodraeth Cymru neu'r Senedd ystyried:

> *"funding of an independent Community Assembly in Merthyr to find the best way forward for people concerned about the short and longer term future of the site and its workers. This should*

*include the public bodies involved, as well as the owners and elected officials. Community Assemblies are a tried and tested way of bringing people together to hear from experts and from each other, share ideas and decide what to do locally on an important topic."*

**58.** Adleisiwyd hyn gan Climate Cymru, a alwodd ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Cynulliad Dinasyddion o breswylwyr ac ymgyrchwyr o gyn-safleoedd glo brig i ymgysylltu â hwy ar y camau nesaf mewn perthynas â syniadau ar gyfer ariannu adferiad.

## Ein barn ni

Clywed gan breswylwyr am yr effaith y mae'r safleoedd hyn wedi'i chael ar eu bywydau fu'r agwedd fwyaf torcalonnus ar ein hymchwiliad. Maent wedi cael effaith ddifrifol ar fywydau, iechyd, llesiant a chartrefi pobl dros flynyddoedd lawer, os nad degawdau. Fel Pwyllgor, mae gennym ganmoliaeth yn unig am urddas, diwydrwydd ac ymroddiad y bobl hyn dros amser maith.

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwnaethom sôn am bwysigrwydd atebolrwydd a sut y mae'n cael ei hwyluso gan dryloywder. Mae'r dadrithiad a fynegwyd i ni gan grwpiau preswylwyr yn pwysleisio'r angen am welliant mewn cyfathrebu a thryloywder. Nodwn, yn achos Ffos-y-frân a safleoedd eraill, fod pwyllgorau cyswllt wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw hyn wedi bod yn ddigon i fynd i'r afael â phryderon.

Credwn y dylid dynodi swyddog penodol yn yr awdurdod lleol i weithio fel cyswllt i'r gymuned leol. Gallai'r person hwn ddarparu sianel uniongyrchol ar gyfer cyfathrebu rhwng preswylwyr ac awdurdodau lleol. Yn ogystal, credwn y dylai awdurdodau lleol greu pyrth ar-lein lle y gall preswylwyr gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am bob cam o'r broses adfer. Mae'r camau hyn yn gwneud tipyn i wella tryloywder.

Dywedwyd wrthym nad ymgysylltir â phreswylwyr lleol yn aml mewn trafodaethau ar gynigion adfer diwygiedig. Roedd clywed hyn yn destun pryder i ni. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru orfodi ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer pob cam o'r broses adfer, gan gynnwys pan gyflwynir cynlluniau adfer diwygiedig.

Awgrymodd cyfranwyr gynulliadau dinasyddion fel fforymau posibl ar gyfer trafod dyfodol safleoedd. Byddent yn gyfle i'r gymuned benderfynu gyda'i gilydd ar y ffordd orau ymlaen. Credwn fod teilyngdod yn yr awgrym hwn, yn enwedig pan fu methiant i adfer safle yn unol â'r caniatâd cychwynnol ac mae angen cyfaddawdu. Mae'n briodol ac yn ddymunol bod y gymuned leol yn cael rôl ganolog mewn prosesau o'r fath a byddai'r dull hwn yn galluogi hynny i ddigwydd.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr awgrymiadau hyn a'r materion ehangach sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned pan fydd yn adolygu polisïau a deddfwriaeth berthnasol, fel yr argymhellwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 17.** Mae rhaid i Lywodraeth Cymru orfodi ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer pob cam o'r broses adfer, gan gynnwys pan gyflwynir cynlluniau adfer diwygiedig.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru gynghori awdurdodau lleol i ddynodi swyddog penodol fel cyswllt i'r gymuned leol, gan ddarparu sianel gyfathrebu uniongyrchol rhwng preswylwyr ac awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â safleoedd neu ddatblygiadau tebyg.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gynghori awdurdodau lleol i greu pyrth ar-lein lle y gall preswylwyr gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am bob cam o'r broses adfer.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru annog y defnydd o gynulliadau dinasyddion fel fforymau ar gyfer trafod dyfodol safleoedd adfer, yn enwedig pan fethodd adferiad fodloni'r caniatâd cynllunio gwreiddiol ac mae angen cyfaddawdu.

# 7. Ffos-y-frân – pwll glo brig olaf Cymru

> *"At the outset in 1990 local people in East Merthyr and Dowlais were given pledges by their local authorities. Yes, there would be noise and nuisance in the short term but after 20 years – 30 at most - the old coal and slag tips stretching from Penydarren near Merthyr Tydfil town centre right up to the top of the overlooking hills would be re-purposed to provide communities with much needed breathing space and an environment that encouraged the revival of biodiversity."*

Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful

**59.** Roedd Cynllun Adfer Tir Ffos-y-frân yn weithrediad glo brig mawr i Ferthyr Tudful. Gweithredwr y safle adeg ei gau oedd Merthyr (De Cymru) Cyf.

**60.** Gan ddechrau yn 2007, nod y cynllun oedd codi 10 miliwn tunnell o lo dros 15 mlynedd. Byddai rhywfaint o'r refeniw yn cael ei ddefnyddio i ailddatblygu'r cyn-weithfeydd diwydiannol presennol yn ddefnydd preswyl a hamdden.

**61.** Daeth trwydded y safle i ben ym mis Medi 2022, a ffeiliwyd cais am estyniad naw mis gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT). Dywedodd preswylwyr lleol fod y cwmni yn parhau i gloddio am lo ar y safle ar ôl i'r drwydded ddod i ben. Gwrthododd CBSMT y cais am estyniad ym mis Ebrill 2023. Arweiniodd hyn at gau'r safle ddiwedd mis Tachwedd 2023.

**62.** Yn dilyn y penderfyniad i wrthod y cais, cyhoeddodd CBSMT **hysbysiad gorfodi** yn erbyn y cwmni. Gofynnodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo i'r awdurdod lleol gyhoeddi "hysbysiad stop" i roi terfyn ar y gwaith cloddio tra oedd y cwmni'n apelio yn erbyn yr hysbysiad gorfodi. Gwrthododd CBSMT, fel y gwnaeth Llywodraeth Cymru. Yn ôl **cyngor Gweinidogol ym mis Gorffennaf 2023**, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod yr achos â swyddogion awdurdodau cynllunio lleol, a dywedwyd wrthynt fod trafodaethau â'r cwmni ynghylch adfer yn mynd rhagddynt.

## Ymateb i ddigwyddiadau a pharodrwydd

**63.** Ym mis Hydref 2023, **ysgrifennodd yr Awdurdod Glo at Lywodraeth Cymru** ynglŷn ag adfer y safle. Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys y canlynol:

- Er gwaethaf cyngor a chymorth gan yr Awdurdod Glo ac eraill (gan gynnwys Llywodraeth Cymru), ychydig iawn o gynnydd gweladwy a wnaed gan y Cyngor wrth baratoi i gau neu adael y pwll glo.

- Nid oedd cynllun cadarn ar gyfer cau'r safle, megis rheoli lefelau dŵr a oedd yn codi neu a allai CBSMT ddefnyddio'r bond adfer a gedwir mewn cyfrifon ysgrow ar gyfer diogelwch safle pe bai'r gweithredwr yn cael ei ddatod.

**64.** Pan ofynnwyd iddo am hyn, cadarnhaodd Ellis Cooper (Prif Weithredwr CBSMT) fod gweithgor technegol wedi'i sefydlu mewn ymateb i bryderon yr Awdurdod Glo. Mae'r grŵp yn cynnwys cyrff rheoleiddio perthnasol. Ychwanegodd Judith Jones (CBSMT) fod y grŵp yn cyfarfod yn fisol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn Ffos-y-frân, rhannu gwybodaeth, a chymryd camau angenrheidiol. Tynnodd Ellis Cooper sylw at welliant o ran rhannu gwybodaeth ac eglurder cyfrifoldebau fel rhai o'r buddion allweddol yn deillio o'r grŵp.

## Merthyr (De Cymru) Cyf – Datganiad – 9 Mai 2024

Cyhoeddodd Merthyr (De Cymru) Cyf ddatganiad ar 9 Mai 2024 mewn ymateb i wahoddiad y Pwyllgor i drafod materion yn ymwneud â Ffos-y-frân. Mae'r datganiad yn llawn wedi'i atgynhyrchu yma:

"Since the cessation of the mining operation in November 2023, Merthyr (South Wales) Limited continues to manage the Ffos-y Fran site to comply with Health & Safety Executive guidelines under The Quarries Regulations 1999.

Post closure of the mining operation the Company selected personnel with some combined 250 years of surface mining experience to form the core of the sites C&M (Care & Maintenance) team. The C&M team are responsible for routinely monitoring all safety and environmental aspects of the site, including water levels and water quality.

The C&M team complete daily checks of the water quality to ensure the water discharges are within consent limits set by NRW (Natural Resources Wales). This is supported with a quarterly water testing programme agreed with NRW. Water samples are tested by an accredited laboratory for a comprehensive suite of determinants. Results indicate there are no determinants that raise a cause for concern to the water environment.

All analytical data is either submitted to NRW or made available for inspection on routine site visits at their request.

Ground Water levels under the guidance of a consultant hydrogeologist, are being monitored on a regular basis, within the mine and are reviewed with NRW and MTCBC (Merthyr Tydfil County Borough Council)

Following one of the wettest winters on record ground water levels have stabilised around the levels monitored prior to commencing mining operations on the site.

Recent trend indicates a fall in water levels, this will be monitored throughout the summer months to establish if there is, as anticipated, a seasonal change in the ground water level, within the range previously monitored.

Therefore, ground water levels remain some 200 feet (60 metres) below the lowest natural ground level located to the North of the site.

Following consultation MSW have reached a formal agreement with MTCBC to commence an interim restoration programme of works for the site, which is due to commence in early May 2024.

MSW have engaged the services of several external consultants, specialists in their field, to prepare a revised restoration plan. MSW continues to discuss with MTCBC and all relevant key stakeholders progress on the revised restoration plan.

Therefore, it would be inappropriate to comment further until the revised restoration plan has been finalised and submitted to MTCBC for their consideration."

## Adfer

**65.** Cyhoeddwyd cynllun adfer ar gyfer y safle yn 2015, yn nodi y byddai'r safle a fyddai'n cael ei adfer yn cynnwys:

> *"Urban common land for stock grazing, with public access for air and exercise. Bryn Caerau Farm will be returned to agricultural use, where disturbed, and nature conservation measures will be incorporated throughout the restoration scheme. The site will be predominantly restored to grassland and moorland vegetation associated with the open areas of the common."*

**66.** Nododd David Cross (Prif Swyddog Cynllunio CBSMT) mai Merthyr (De Cymru) Cyf. sydd â'r prif gyfrifoldeb am adfer y safle yn unol â'r cynlluniau cymeradwy. Cydnabu Ellis Cooper y berthynas heriol gyda gweithredwr y safle, gan gynnwys camau cyfreithiol i sicrhau taliad yr ymrwymwyd iddo. Esboniodd Geraint Morgan (Cyfreithiwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) fod y caniatâd cynllunio gwreiddiol a roddwyd yn 2005 yn gofyn am fond £15 miliwn a gwarant rhiant-gwmni £15 miliwn. Dywedodd fod y bond £15 miliwn a'r warant rhiant-gwmni £15 miliwn yn parhau i fod yn eu lle fel ar y pryd, er gwaethaf apeliadau a cheisiadau dilynol ynghylch gweithrediadau'r safle. Nododd Geraint Morgan y deallwyd na fyddai £15 miliwn o reidrwydd yn ddigonol i adfer y safle, ond mai mater i'r datblygwr oedd adfer y safle.

**67.** Eglurodd Geraint Morgan fod y £15 miliwn a fwriadwyd ar gyfer adfer y safle yn cael ei ddal mewn cyfrif ysgrow ac nad yw'n uniongyrchol hygyrch gan yr awdurdod lleol. Er mwyn tynnu'r arian i lawr, mae rhaid bodloni gofynion penodol ac mae rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan y datblygwr a'i chydlofnodi gan yr awdurdod lleol. Mae'r gofynion yn cynnwys cael strategaeth adfer gymeradwy. Dyrennir yr arian yn llym ar gyfer adfer y safle ac ni chaniateir ei ddefnyddio at ddibenion eraill, megis gosod pympiau draenio.

### Asesu'r arian sydd ei angen ar gyfer adfer

**68.** Esboniodd David Cross yr anawsterau o ran darparu amcangyfrif cywir ar gyfer y costau adfer, o ystyried yr angen am wybodaeth ychwanegol am gyflwr y safle. Roedd amcangyfrifon blaenorol wedi amrywio o £50 miliwn i £120 miliwn, ac roedd hyn oherwydd data anghyflawn. Tynnodd sylw at yr anawsterau y mae'r

cyngor wedi'u hwynebu wrth gael data cywir a chynhwysfawr am y safle, gan ddibynnu yn aml ar wybodaeth a ddarparwyd gan y datblygwr. Fodd bynnag, mae hyn wedi gwella'n ddiweddar.

**69.** Tynnodd Chris Austin sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi amcangyfrif mai oddeutu £50 i £60 miliwn oedd y costau adfer. Roedd yn pryderu y byddai amcangyfrif uchel yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai gweithredwr y safle yn gadael y safle, o gofio ei fod eisoes wedi honni bod y cynllun adfer gwreiddiol yn anfforddiadwy. Ailadroddwyd hyn yn ei ymateb ysgrifenedig:

> *"This figure of £125 Million is being used to argue that MSW cannot possibly afford the final restoration costs and therefore is driving the renegotiation of the final restoration plan/strategy, despite it being an unverified, unsubstantiated and inherently untrustworthy figure."*

**70.** Cadarnhaodd David Cross nad oedd asesiadau atebolrwydd adfer blynyddol, a argymhellwyd gan yr Awdurdod Glo yn 2016, wedi'u gweithredu ar gyfer Ffos-y-frân. Esboniodd yr anhawster wrth gymhwyso canllawiau newydd yn ôl-weithredol i ganiatâd cynllunio 2005.

**71.** Mewn ymateb i ymholiad ynghylch pam nad oedd y bond gwreiddiol wedi'i addasu i adlewyrchu'r amcangyfrif mwy realistig, sef £50 miliwn a nodwyd yn adroddiad 2014, eglurodd Geraint Morgan nad oedd yn agored i neb, ar y pryd, ailagor y trafodaethau ynghylch faint o arian roedd angen ei neilltuo mewn cyfrif ysgrow neu fond.

## Statws ariannol gweithredwr y safle

**72.** Tynnodd Chris Austin sylw bod y cwmni mwyngloddio wedi honni na all fforddio'r gwaith adfer, er ei fod wedi gwneud elw sylweddol dros flynyddoedd lawer. Dywedodd y canlynol:

> *"They can well afford it. When they signed up to buy this out, their contract says it's a land reclamation scheme, you put the land back, anything left over is yours, not vice versa".*

Pwysleisiodd yr angen am dryloywder i ddeall gallu gweithredwr y safle i ariannu'r gwaith adfer.

**73.** Cododd David Kilner bryderon am weithredwr y safle o bosibl yn gadael y safle neu ddatgan methdaliad i osgoi ei gyfrifoldebau. Gofynnodd a oedd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn defnyddio'r holl offer oedd ar gael i sicrhau atebolrwydd ariannol ac anogodd Lywodraeth Cymru i fynd ar drywydd llwybrau cyfreithiol i adennill y gost adfer lawn.

**74.** Mewn ymateb i ymholiad, trafododd Geraint Morgan ymdrechion i ddilysu gallu ariannol y cwmni i ariannu gwaith adfer y safle, gan nodi bod cyfrifon y cwmni yn nodi bod £74.5 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith adfer.

**75.** Yn ei ymateb ysgrifenedig, dywedodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo y canlynol:

> *"A Good Law Project investigation found that since 2017, Merthyr (South Wales) Ltd funnelled cash out of the company to pay out £49.89m in dividends and royalties, while the restoration fund faces a shortfall of at least £60m (according to Merthyr Tydfil County Council). In a meeting between CAN, Good Law Project, Richard Buxton Solicitors, and Matrix Chambers of London, it was advised that Merthyr (South Wales) Ltd may have acted fraudulently in reporting that it intended to finance restoration and was in a position to do so, if it could be proven that the Director and company had no genuine intent to do so. However, no public body has indicated an interest in pursuing a prosecution on that, or any other, basis— despite the sums of money and material impact at stake."*

## Cymhwyso argymhellion adroddiad 2014

**76.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, gwnaeth CBSMT sylwadau ar gymhwyso adroddiad 2014 mewn perthynas â Ffos-y-frân. Yn yr adroddiad, dywedwyd mai ychydig iawn o rwymedïau sydd i alluogi'r amodau cynllunio i gael eu bodloni mewn amgylchiadau lle y rhagwelir y gallai gweithredwr y safle fethu adfer y safle, gyda bond annigonol a llwyddiant gorfodi cyfyngedig. Adlewyrchodd yr anawsterau hyn brofiadau CBSMT.

**77.** Cyfeiriodd CBSMT at y mesurau lliniaru a amlinellir yn adroddiad 2014 ac esboniodd sut roedd wedi mynd ar drywydd mesurau o'r fath mewn perthynas â'r safle:

> *"The submission of a revised planning application to extend the life of the mine, where additional contributions towards the restoration fund can be made. This was explored as part of a planning application to extend the life of Ffos y Fran for an additional 3 years. However, the application was refused as it ran contrary to national planning policy.*
>
> *A new application for a revised after-use of the site to generate enhanced residual land values. In the case of Ffos Y Fran, the majority of the site is to return to common land. To date no alternative scheme has been presented to the local planning authority for consideration.*
>
> *Major reconfiguration of the form of restoration for the site. A dominant cost component for the restoration works relates to the bulk earthmoving needed to replace the excavated overburden back into the void. Such costs could be reduced by partially infilling the void, reshaping the overburdens and could include part of the void being retained as a water feature. This is currently being explored at the Ffos Y Fran site, where the site operator is currently preparing the submission of a future planning application to vary the restoration strategy, which would likely involve the retention of some of the overburdens and a water body in the void."*

## Gwaith adfer interim

**78.** Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, cytunodd gweithredwr y safle ac CBSMT ar raglen adfer interim i ddechrau yn gynnar ym mis Mai 2024. Esboniodd David Cross fod 52 hectar o dir yn yr arfaeth ar gyfer gwaith adfer interim.

**79.** Esboniodd Geraint Morgan fod gweithredwr y safle wedi gofyn i'r gwaith interim gael ei ariannu o'r cyfrif ysgrow. Roedd y cais yn gyson â meini prawf

cytundeb adfer 2007 ac roedd diwygiadau i'r cytundeb ysgrow yn cael eu hystyried yn sgil y cais.

## Cynllun adfer diwygiedig

**80.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, **dywedodd CBSMT** ei fod wedi bod yn trafod â gweithredwr y safle ers amser maith ynghylch datblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer gweddill y safle. Yn ei ymateb ysgrifenedig, dywedodd CBSMT wrth y Pwyllgor ei fod yn ystyried, gyda'r gweithredwr, ailgyflunio ffurf gwaith adfer y safle. Roedd y gweithredwr yn paratoi cais i amrywio'r strategaeth adfer, a fyddai'n debygol o olygu cadw rhai o'r gorlwythi a chorff dŵr yn y gwagle.

**81.** Yn ei ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor, esboniodd Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful y dylai unrhyw gynllun adfer diwygiedig gynnwys holl brif amcanion y cynllun adfer o 2007. Dylai hyn gynnwys: mynediad cyhoeddus diogel ar draws tirwedd hanesyddol Dwyrain Merthyr gyda rhwydwaith newydd o lwybrau troed; cynefinoedd bywyd gwyllt cynaliadwy a safleoedd amgylcheddol bioamrywiol; diogelu ac adfer nodweddion treftadaeth sydd wedi goroesi – gan gynnwys yr hen wely trac rheilffordd o Gwmbargoed i Ddowlais; a dychwelyd y rhan fwyaf o'r safle at ddefnydd traddodiadol cominwyr.

### Materion gyda'r wefan

**82.** Cododd sawl cyfrannwr, gan gynnwys y preswylwyr lleol, bryderon y caniatawyd i'r gwagleoedd ar y safle gael eu llenwi â dŵr. Mynegodd Alyson Austin bryderon angerddol am ddiogelwch y gwagle a lenwyd â dŵr, gan ddweud y canlynol:

> *"We don't know if that water is leaching. We don't know how toxic it is. We don't know if that water then will get into the water table".*

**83.** Esboniodd Carwyn Morris fod hydrolegwyr wedi bod yn monitro'r corff o ddŵr ar y safle. Sicrhaodd y Pwyllgor fod lefel y dŵr ymhell islaw'r trothwy a fyddai'n achosi llifogydd.

## Cynnwys y gymuned

**84.** Dywedodd Geraint Thomas (Arweinydd CBSMT) fod ymgysylltiad y cyngor â'r cyhoedd yn dilyn gofynion cynllunio, gyda chyfleoedd i ymgynghori wedi'u cyfyngu i gyfnodau penodol yn y broses. Dywedodd Ellis Cooper ei bod yn anodd ymgysylltu â phreswylwyr ynglŷn â'r cynlluniau adfer yn niffyg cynigion manwl. Dywedodd y bydd modd ymgysylltu â'r preswylwyr pan fydd y manylion ar gael.

**85.** Tynnodd Judith Jones sylw at yr ymgysylltiad parhaus â'r gymuned leol drwy bwyllgor cyswllt ar gyfer y safle. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae swyddogion y cyngor, cynghorwyr a phreswylwyr lleol ymhlith yr aelodau. Roedd yn hyderus bod aelodau'r pwyllgor yn teimlo eu bod yn ymgysylltu'n ddigonol. Ychwanegodd mai'r bwriad fyddai i nifer o gyflwyniadau gael eu gwneud i'r pwyllgor cyswllt pan ddaw'r cynllun diwygiedig ymlaen.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

**86.** Soniodd Haf Elgar am yr anhawster o ran ymgysylltu â'r awdurdod lleol ynghylch adfer safle Ffos-y-frân. Roedd rhanddeiliaid wedi bod yn codi pryderon ers sawl blwyddyn, a gwnaethant nodi ei bod wedi bod yn eithaf hir a, thrwy gydol y broses, bu'n anodd cael gwybodaeth gan yr awdurdod lleol. Cytunodd Daniel Therkelsen â'r asesiad hwn, gan ddweud bod y cyngor yn rhwystrol ar adegau. Nododd dros fis o oedi ar gyfer ymatebion i rai ymholiadau.

**87.** Cydnabu Daniel Therkelsen fod capasiti'r awdurdodau lleol yn broblem, ond awgrymodd y gallai fod elfen hefyd o beidio â bod eisiau i broblemau fod yn dra hysbys. Roedd yn credu y gallai'r cyngor fod wedi bod yn amharod i rannu gwybodaeth oherwydd y posibilrwydd craffu a gwrthlef y cyhoedd dros y materion parhaus gyda'r safle.

## Ein barn ni

> Mae Ffos-y-frân, pwll glo brig olaf Cymru, yn symbol o fethiannau'r system, fel y nodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae'r methiant i adfer y safle yn ein hatgoffa o'r angen am bolisïau cadarn, camau gorfodi effeithiol, a chynnwys y gymuned yn wirioneddol mewn wrth adfer safle.

Mae'n bwysig nodi y bu rhybuddion sylweddol a chlir am y materion posibl yn Ffos-y-frân. Roedd yn un o bum safle a nodwyd yn adroddiad 2014 fel rhai sydd mewn perygl oherwydd sicrwydd bond annigonol. Er ein bod yn cydnabod yr heriau a wynebodd yr awdurdod lleol wrth gymhwyso argymhellion adroddiad 2014 yn ôl-weithredol a chanllawiau 2016 ar arfer gorau, mae degawd wedi mynd heibio ers i'r rhybuddion hynny gael eu rhoi gyntaf. Mae rhaid i ni amau a yw'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru wedi cymryd pob cam angenrheidiol i geisio canlyniad gwell i'r gymuned leol.

Daeth y drwydded ar gyfer Ffos-y-frân i ben ym mis Medi 2022, ond parhaodd mwyngloddio anghyfreithlon, gan dorri rheolaethau cynllunio. Er gwaethaf galwadau gan y Rhwydwaith Gweithredu Glo am hysbysiad stop, ni weithredodd CBSMT na Llywodraeth Cymru yn bendant i atal y gweithgareddau hyn. Mae'r methiant hwn yn tanlinellu'r angen am fecanweithiau gorfodi cryfach.

Rydym yn canmol CBSMT am gytuno i ymddangos gerbron y Pwyllgor ac am ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol yn y sesiwn. Ar y llaw arall, gwrthododd gweithredwr y safle y cyfle i esbonio ei safbwynt. Yn hytrach, rhoddodd ddatganiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor a oedd yn dweud ychydig iawn. Roeddem yn siomedig gyda hynny. Mae'r gwrthodiad yn arwydd o ymddygiad y cwmni hwn tuag at yr awdurdod lleol a'i breswylwyr.

Mae'r awdurdod lleol wedi cael anawsterau sylweddol yn ei berthynas â gweithredwr y safle. Mae diffyg tryloywder ymddangosiadol y gweithredwr wedi golygu y bu'n anodd datblygu cynllun cau ac yn anodd asesu'r costau adfer yn gywir.

Erbyn hyn, mae'n ymddangos nad oes gan weithredwr y safle fwriad o gyflawni ei rwymedigaethau adfer yn unol â'r cynllun gwreiddiol. Fel cynifer o rai eraill, mae wedi cymryd elw o'r safle ac mae'r arian a gafodd ei addo ar gyfer gwaith adfer ar goll.

Mae awdurdodau lleol fel CBSMT mewn sefyllfa ddiddiolch. Oherwydd y baich ariannol y mae'n ei wynebu, nid oes ganddo fawr o ddewis heblaw derbyn yr hyn y mae gweithredwr y safle yn barod i'w gynnig. Fel y dywedwyd wrthym mewn tystiolaeth – mae rhywfaint o adferiad yn well na dim adferiad. Ac mae troi at y gyfraith yn ddrud, yn enwedig i awdurdodau lleol lle y mae pwysau ar

adnoddau. Chwarae teg i CBSMT, mae’r awdurdod wedi dangos parodrwydd i sefyll drosto ei hun – drwy fynd â gweithredwr safle Ffos-y-frân i’r llys ac ennill. Ond mae risg uchel i’r mathau hyn o frwydrau oherwydd y costau, yn enwedig os yw’r achos yn cael ei golli.

Mae amcangyfrifon cost adfer cywir yn hanfodol ar gyfer gwaith cynllunio effeithiol. Mae’r anawsterau wrth gael data cynhwysfawr ar gyfer Ffos-y-frân wedi arwain at ystod eang o amcangyfrifon cost, o £50 miliwn i £120 miliwn. Mae CBSMT wedi dweud nad oedd asesiadau cywir yn bosibl oherwydd na wnaeth gweithredwr y safle ddarparu data. Unwaith eto, rydym yn amau a allai’r awdurdod lleol fod wedi gwneud mwy ac a ddylai fod wedi gwneud mwy.

Mae beirniadaeth yr Awdurdod Glo o ddiffyg cynllun cau cadarn CBSMT ar gyfer Ffos-y-frân yn frawychus. Mae cynlluniau cau effeithiol yn hanfodol ar gyfer rheoli effeithiau amgylcheddol, megis lefelau dŵr yn codi, a sicrhau diogelwch y safle.

Erbyn hyn, mae’n ymddangos yn anochel y bydd adfer y safle yn cynnwys cadw rhai o'r gorlwythi a rhyw fath o gorff dŵr yn y gwagle. Cyfeiriodd CBSMT at hyn fel nodwedd ddŵr. Mae hwn yn ganlyniad annerbyniol a achoswyd gan ddiffyg gweithredu bwriadol gweithredwr y safle. Mae rhaid i’r awdurdod lleol, ar y cyd â gweithredwr y safle, sicrhau bod unrhyw gorff dŵr o’r fath yn ddiogel ac mae rhaid iddo lunio cynllun i sicrhau y gall, yn y pen draw, ddarparu budd i’r gymuned.

Rydym yn cytuno ag Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful y dylid adlewyrchu amcanion y cynllun gwreiddiol yn y cynllun adfer diwygiedig. Rydym yn derbyn y bydd yr awdurdod lleol a gweithredwr y safle am ystyried sut y gellir cyflawni’r rhain mewn cynllun diwygiedig ond, serch hynny, credwn fod dyletswydd arnynt i wneud hynny.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd sylwadau preswylwyr am y ffordd roedd awdurdodau cyhoeddus wedi’u trin yn dorcalonnus. Mae gwelliannau mewn tryloywder ac ymgysylltiad yn hanfodol. Mae gan CBSMT gyfle nawr i wneud iawn drwy sicrhau bod preswylwyr yn cael eu cynnwys yn llawn wrth ystyried y cynllun adfer diwygiedig. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad cymunedau lleol mewn penderfyniadau adfer.

Er budd tryloywder, dylai CBSMT ymrwymo i gyhoeddi'r cais ar gyfer y cynllun diwygiedig, yn ogystal ag adroddiad y swyddog cynllunio perthnasol.

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio mecanweithiau gorfodi cryfach yn ddi-oed i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolaethau cynllunio, megis y gweithgareddau mwyngloddio a barhaodd yn Ffos-y-frân ar ôl i'r drwydded ddod i ben.

**Argymhelliad 22.** Os na ellir draenio'r dŵr o'r gwagleoedd ar y safle, mae rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sicrhau bod unrhyw gorff dŵr sy'n deillio o'r gwaith adfer yn Ffos-y-frân yn ddiogel ac yn darparu budd i'r gymuned leol.

**Argymhelliad 23.** Mae rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sicrhau bod y cynllun adfer diwygiedig yn adlewyrchu, o leiaf, amcanion y cynllun adfer gwreiddiol, gan gynnwys: mynediad diogel i'r cyhoedd ar draws tirwedd hanesyddol Dwyrain Merthyr gyda rhwydwaith newydd o lwybrau troed; cynefinoedd bywyd gwyllt cynaliadwy a safleoedd amgylcheddol bioamrywiol; diogelu ac adfer nodweddion treftadaeth sydd wedi goroesi; a dychwelyd y rhan fwyaf o'r safle at ddefnydd traddodiadol cominwyr.

**Argymhelliad 24.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gynnwys preswylwyr lleol yn llawn wrth ystyried cynlluniau adfer diwygiedig ar gyfer safle Ffos-y-frân.

**Argymhelliad 25.** Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyhoeddi'r cais ar gyfer y cynllun adfer diwygiedig yn Ffos-y-frân ac adroddiadau cysylltiedig y swyddog cynllunio.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried goblygiadau ehangach y methiannau yn Ffos-y-frân a gweithredu newidiadau systemig i atal materion tebyg yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â safleoedd adfer tomenni glo.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o sesiynau tystiolaeth lafar ar **wefan y Pwyllgor**.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **24 Ebrill 2024** | **Carl Banton,**<br>Yr Awdurdod Glo<br>**Daniel Therkelsen,**<br>Yr Rhwydwaith Gweithredu Glo<br>**Haf Elgar,**<br>Cyfeillion y Ddaear Cymru<br>**Marcus Bailie,**<br>Gwrthryfel Difodiant Cymru<br>**David Kilner,**<br>Climate Cymru |
| **9 Mai 2024** | **Alyson Austin,**<br>Preswylydd, Merthyr Tudful<br>**Chris Austin,**<br>Preswylydd, Merthyr Tudful<br>**Sue Jordan,**<br>Preswylydd, Abertawe<br>**Owen Jordan,**<br>Preswylydd, Abertawe<br>**Hugh Towns,**<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **22 Mai 2024** | **Geraint Thomas,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>**Ellis Cooper,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>**Judith Jones,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Carwyn Morris,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>**David Cross,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>**Geraint Morgan,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar **wefan y Pwyllgor**.

| Unigolyn/Sefydliad |
|---|
| **Yr Awdurdod Glo** |
| **Yr Rhwydwaith Gweithredu Glo** |
| **Cyfeillion y Ddaear Cymru** |
| **Gwrthryfel Difodiant Cymru** |
| **Climate Cymru** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** |
| **Merthyr (South Wales) Limited** |
| **Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful** |
| **Alyson Austin,** preswylydd, Merthyr Tudful |
| **Chris Austin,** preswylydd, Merthyr Tudful |
| **Sue Jordan,** preswylydd, Abertawe |
| **Owen Jordan,** preswylydd, Abertawe |
| **Gaynor Ball,** preswylydd, Margam |
| **Suzanne De Celis,** preswylydd, Margam |
| **Janice K Adamson,** preswylydd, Margam |